OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 367 (Cy.33)

CAFFAEL TIR, CYMRU
CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2005

Wedi'i wneud	- -	*22 Chwefror 2005*
Yn dod i rym	- -	*1 Ebrill 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 149(3)(a) a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) ac adrannau 143 a 147 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**2**), ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**3**), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2005 a daw i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

Terfyn gwerth blynyddol

2. £29,200 yw'r swm a ragnodir at ddibenion adran 149(3)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Dirymu

3. Dirymir drwy hyn Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2000(**4**) .

(**1**) 1990 p.8.
(**2**) 1988 p.41.
(**3**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel a amrywiwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) (Cy.5).
(**4**) O.S. 2000/1169 (Cy.94).